Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

# Asesu Ariannol a Chodi Ffioedd

Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# Talu am Ofal Cymunedol a Gwasanaethau Cymorth

Diwygiwyd Ebrill 2020

**Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth am y cyfraniadau taladwy a'r broses asesu ariannol o dan Bolisi Ffioedd Dibreswyl Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer Gofal Cymunedol a Gwasanaethau Cymorth yn 2020/21.**

**Mae polisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn unol â chanllawiau a rheoliadau Llywodraeth Cymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

**Pam oes yna ffioedd am wasanaethau cymorth cymunedol?**

Mae Gofal Cymunedol a Gwasanaethau Cymorth yn galluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ble bynnag y bo'n bosibl. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gweithio oddi fewn i fframwaith ariannol cyfyngedig ac felly mae'n codi taliadau am gyfraniad tuag at y gwasanaethau y mae'n eu darparu. Mae hyn yn ein galluogi ni i ddarparu gwasanaeth ymatebol o ansawdd uchel.

**Am ba wasanaethau fydd ffioedd fyddaf yn eu talu?**

Bydd yn ofynnol i chi gyfrannu at gostau'r gwasanaethau canlynol:

- Llety â chymorth;
- Gwasanaethau gofal dydd – presenoldeb;
- Gwasanaethau cymorth yn y cartref – Gwasanaethau gofal personol, Gwasanaethau eistedd (dydd/nos), Gwasanaethau Domestig Cyffredinol;
- Prydau bwyd mewn canolfannau dydd – ni fydd y ffioedd hyn yn amodol ar asesiad ariannol, ond byddant wedi eu gosod am bob pryd o fwyd;
- Gwasanaeth a ddarperir i Ofalwyr.

**Am ba wasanaethau nad oes raid i mi dalu amdanynt?**

Ni fydd cyfraniad am y canlynol:

- Gwasanaethau a ddarparwyd o dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl (gwasanaethau ôl-ofal);
- Gwasanaethau a ddarparwyd i bobl sy'n dioddef o Glefyd Creuzfeldt Jacob (CJD);
- Cymhorthion bywyd bob dydd – bydd y gwasanaeth hwn wedi ei eithrio rhag ffioedd;
- Prosiectau Cyflogaeth â Chymorth;
- Gwasanaethau gwirfoddoli (cyfeillio / gyrwyr);
- Cyngor cyffredinol / gwasanaeth cwnsela i ofalwyr;
- Trafnidiaeth i fynychu canolfan ddydd sy'n cael ei ddarparu gan neu ei drefnu gan y Cyngor;
- Gwasanaethau Ail-alluogi am hyd at 6 wythnos, yn ddibynnol ar angen.

**Pwy fydd yn talu am ffioedd?**

- Fel arfer caiff bydd unrhyw un dros 18 oed yn talu cyfraniadau ffioedd sy'n derbyn gwasanaethau (ac eithrio'r eithriadau a ddynodwyd gynt);
- Mae cyfraniadau yn berthnasol i ddefnyddiwr y gwasanaeth, nid ei bartner *, teulu na gofalwr;

*Fodd bynnag, pan fo defnyddiwr y gwasanaeth yn briod neu'n hawlio budd-dal fel cwpl, gellir cyfrifo asesiad ariannol yn seiliedig ar incwm y cartref, ble y gallai'r incwm fod yn fwy buddiol i ddefnyddiwr y gwasanaeth.

**Beth os ydw i'n ofalwr?**

Bydd gofalwyr yn gorfod talu cyfraniadau am wasanaethau a dderbyniwyd iddynt hwy eu hunain i'w cynorthwyo yn eu rôl ofalu.

**Beth yw'r Cyfraniadau?**

Nid yw'r ffioedd yn adlewyrchu gwir gost y gwasanaethau a ddarparwyd ond maen nhw'n gyfraniad at y gwir gost. Gallai'r cyfraniad sy'n daladwy hefyd ddibynnu ar a ydych yn penderfynu ymgymryd ag asesiad ariannol.

Os nad ydych yn darparu manylion am eich incwm er mwyn i ni gyflawni asesiad ariannol, byddwch yn cytuno i dalu uchafswm y cyfraniad am y lefel o wasanaeth rydych yn ei dderbyn.

Os oes gennych arbedion / cynilon dros £24,000 (dau ddeg pedwar mil o bunnoedd)(gweler yr adran drosodd Beth os oes gennyf Gynilon / Cyfalaf) bydd disgwyl i chi hefyd dalu uchafswm y cyfraniad.

**O Ebrill 2020 uchafswm y cyfraniadau yw:**

- Gofal Personol – 1 awr neu ran ohoni - £12.50;
- Domestig Cyffredinol - sesiwn* - £12.50;
- Gwasanaeth Eistedd (Dydd neu Nos) – Sesiwn* - £12.50;
- Presenoldeb yn y Ganolfan Ddydd – Dydd neu ran o'r dydd - £12.50.

*Caiff sesiwn ei seilio ar angen ac nid oes cyfyngiad amser iddo.

Uchafswm y Cyfraniad Taladwy ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau a restrwyd neu Gyfuniad o wasanaethau yw £100.00 (can punt) yr wythnos.

Gall y cyfraniadau uchod newid yn flynyddol.

**Beth yw Asesiad Ariannol?**

Caiff defnyddwyr y gwasanaeth sy'n derbyn gwasanaethau cymorth cymunedol taladwy wahoddiad i dderbyn asesiad ariannol unigol neu brawf modd.

Bydd yr asesiad ariannol yn pennu faint allwch chi ei fforddio os unrhyw faint, tuag at y gwasanaeth yr aseswyd bod ei angen arnoch.

Os ydych yn troi lawr asesiad ariannol byddwch yn gorfod talu uchafswm cyfraniadau a ddangoswyd ar y dudalen flaenorol am y gwasanaethau rydych yn eu derbyn. Er mwyn derbyn asesiad ariannol rhaid i ddefnyddiwr y gwasanaeth ddarparu manylion o'i fudd-daliadau, cynilion, incwm arall a dderbyniwyd a rhai treuliau eraill.

Ble y bo'n bosibl dylai'r wybodaeth hon gael ei darparu cyn bod eich gwasanaethau'n dechrau.

Bydd budd-daliadau / incwm a gaiff ei ystyried yn cynnwys:

- Pob pensiwn, budd-dal a lwfans Nawdd Cymdeithasol, gan gynnwys budd-dal anabledd
- Pensiwn galwedigaethol / preifat yn cynnwys y rhai a etifeddwyd gan bartner / perthynas ymadawedig;
- Incwm o flwydd-daliadau / cronfeydd ymddiriedolaeth / bondiau;
- Unrhyw gynilon / cyfalaf;

Ymhlith budd-dal / incwm na chaiff ei ystyried fydd y canlynol:

- Enillion neu fudd-dal amnewid am gyflog;
- Credyd Treth Gwaith;
- Lwfans Byw i'r Anabl – Cyfradd Symudedd;
- Taliad Annibyniaeth Personol – Cyfradd Symudedd;

Ymhlith y treuliau na fydd yn cael eu hystyried fydd:

- Rhent ar ôl unrhyw daliadau budd-daliad tai ond heb gynnwys tâl gwasanaeth;
- Y Dreth Gyngor ar ôl unrhyw daliadau gostyngiad i'r dreth gyngor;
- Taliadau morgais;
- Gorchmynion Statudol fel Cynhaliaeth Plant.

O dan yr asesiad ariannol, diystyrir hefyd Lwfans Byw wythnosol, sy'n gyfwerth â'r swm sylfaenol y dywed yr Adran waith a Phensiynau fod ei eisiau arnoch chi er mwyn byw (yn dibynnu ar eich oedran a'ch amgylchiadau byw), ynghyd â 45%; efallai na fydd hyn yn cynnwys unrhyw symiau ychwanegol neu rai a chwyddwyd.

Fel rhan o'r asesiad ariannol ni chaiff Lwfans Byw wythnosol ei ystyried chwaith, sy'n gyfwerth â swm sylfaenol y mae'r Adran Waith a Phensiynau yn dweud sydd angen i chi fyw arno (gan ddibynnu ar eich oed ac amgylchiadau byw) a 45% ychwanegol; mae'n bosibl na fydd hyn yn cynnwys unrhyw symiau ychwanegol neu fwy.

Cynllunnir i'r 45% a ychwanegwyd at y swm sylfaenol fod i ddiogelu defnyddiwr y gwasanaeth ac atal tanseilio byw'n annibynnol gan bolisïau ffioedd. Diben y Lwfans Byw uchod yw cynnwys eitemau fel:

- Bwyd;
- Dillad;
- Yswiriant, yn cynnwys adeiladau a'u cynnwys, diogelu morgais a sicrwydd bywyd;
- Ardrethi dŵr
- Biliau gwasanaethau fel nwy, trydan a ffôn;
- Trwydded teledu;
- Tanysgrifiadau i gwmnïau lloeren/digidol;
- Adnewyddu ac atgyweirio eitemau tŷ;
- Gwariant arall fel cardiau credyd / debyd neu fenthyciadau personol (gan gynnwys Dyfarniadau Llys Sirol) ac ôl-ddyledion;
- Cost sy'n berthnasol i anabledd.

(Nid yw'n fwriad i'r rhestr hon fod yn gyflawn).

Os ydych wedi dewis derbyn asesiad ariannol ond yn methu â rhannu'n gywir yr holl wybodaeth ariannol, byddwn yn codi'r taliad o uchafswm y cyfraniad arnoch.

Ar ôl i ni gwblhau asesiad ariannol byddwch yn derbyn datganiad ariannol yn manylu'r swm y mae'n ofynnol i chi ei gyfrannu a sut y cafodd hyn ei gyfrifo. Bydd y ffi yn daladwy o'r dyddiad rydych yn dechrau derbyn gwasanaethau. Caiff ailasesiad ei gyflawni'n flynyddol ym mis Ebrill yn unol â newidiadau i'ch budd-daliadau Adran Gwaith a Phensiynau.

Fodd bynnag os yw eich amgylchiadau ariannol yn newid cyn yr adeg hon rhaid i chi gysylltu â ni i ddarparu manylion o'r newidiadau fel y gellir cwblhau ailasesiad.

**Beth os na fyddaf yn cytuno â chanlyniad yr Asesiad Ariannol?**

Gallwch ofyn bod eich asesiad yn cael arolwg a darparu unrhyw wybodaeth ychwanegol y gellir fod angen ei hystyried.

Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon, mae gennym weithdrefn gwyno ffurfiol. Byddwch yn derbyn rhagor o wybodaeth o ran y broses arolwg pan fyddwch yn derbyn eich datganiad ariannol o'r ffioedd.

**Beth os oes gennych gynilon / cyfalaf?**

Os oes gennych dros £24,000 (dau ddeg pedwar mil o bunnoedd) mewn cynilion mae disgwyl i chi dalu uchafswm cyfraniad ar gyfer y gwasanaeth rydych yn ei dderbyn fel y gosodwyd allan yn y tabl blaenorol.

Caiff y swm hwn ei osod gan Lywodraeth Cymru a gall newid yn flynyddol. Os ydych yn derbyn gwasanaethau, ni ddylech roi dim o'ch arian nac asedau i ffwrdd er mwyn lleihau swm y cyfraniad sydd yn rhaid i chi ei dalu. Bydd unrhyw symiau o'r fath yn parhau i gael eu cyfrif fel eich rhai chi yn yr asesiad ariannol.

Os yw eich cynilion / cyfalaf yn cael eu cadw ar ffurf buddsoddiad neu fondiau incwm, mae'n bosibl y byddwn yn trin y symiau hyn yn wahanol. Bydd y ffordd rydym yn eu trin yn dibynnu ar y math o fond; byddwn un ai'n eu hystyried fel cyfalaf neu byddwn yn cymryd y llog enillwyd i'r cyfrif fel incwm.

Ar ôl i chi ddarparu manylion am y math o fond a gedwir a'r gwerth a'r llog enillwyd, yna byddwch yn cael eich hysbysu am sut y caiff y bond ei drin yn yr asesiad ariannol.

**Beth os oes gennyf eiddo?**

Ni chaiff unrhyw eiddo sydd yn berchen i chi ei gynnwys yn eich asesiad ariannol ar gyfer Gofal Cymunedol a Gwasanaeth Cymorth. Os, fodd bynnag, oes gennych fwy nag un eiddo, caiff unrhyw incwm a gynhyrchir gan yr eiddo ychwanegol ei gynnwys yn eich asesiad ariannol.

**Allaf i ddewis sut y caiff fy Ngofal Cymunedol a Gwasanaethau Cymorth eu darparu?**

Gallwch mewn rhai achlysuron. Bydd angen i chi drafod eich anghenion gofal a'r opsiynau sydd ar gael am y math o ofal sy'n ofynnol gennych gyda'ch Rheolwr Gofal. Bydd yr awdurdod un ai'n trefnu i'w ddarparwyr gofal dan gontract i ddarparu eich anghenion gofal, neu gallwch wneud cais i gael eich gofal wedi ei ddarparu drwy daliad uniongyrchol.

Yr hyn yw taliad uniongyrchol yw pan fo'r awdurdod yn eich talu chi'n rheolaidd neu berson penodedig, i chi drefnu a phrynu eich anghenion gofal mewn modd hyblyg. (Gweler ein taflen ar wahân ar daliadau uniongyrchol.)

**Sut fyddaf yn talu am fy nghyfraniad?**

Bydd anfoneb yn cael ei chyflwyno i chi bob 4 wythnos. Bydd yr anfoneb yn darparu manylion am yr amrywiol fathau o ddulliau talu sydd ar gael. Neu gallwch ddewis talu drwy ddebyd uniongyrchol.
Nodwch y canlynol:

- Mae prydau bwyd mewn Canolfan Ddydd yn daladwy gydag arian parod yn ddyddiol neu'n wythnosol.

**A fyddaf yn derbyn unrhyw gyngor budd-daliadau?**

Fel rhan o'r broses asesu ariannol, bydd staff ariannol CBSMT yn darparu cyngor budd-daliadau. Bydd staff hefyd yn gallu cyfeirio defnyddwyr gwasanaeth at sefydliadau eraill sy'n cynnig cyngor budd-daliadau'r wladwriaeth am ddim, os, yn ystod eich asesiad ariannol, y mae staff yn dynodi budd-daliadau ychwanegol y gallech fod yn gymwys amdanynt, bydd disgwyl i chi hawlio'r budd-daliadau hyn gan y gallant fod yn rhan o'ch asesiad pan fyddant mewn taliad.

Cyngor i'r rheini dros oed cymhwyso i bensiwn y wladwriaeth a budd-dal arall i'r rheini o dan oed pensiwn y wladwriaeth.

**Beth os fyddaf yn gwrthod talu?**

Os ydych chi'n profi anawsterau o ran talu am wasanaethu neu'n meddwl y gallen ni fod yn codi gormod yna cysylltwch â ni ar unwaith fel bod eich asesiad ariannol yn gallu cael ei arolygu ac unrhyw gamgymeriadau eu cywiro.

Fodd bynnag, os ydych chi'n gwrthod talu eich cyfraniad, caiff gweithdrefnau adfer dyled eu dilyn ble y bo'n briodol a allai arwain at ychwanegu taliadau ychwanegol at unrhyw ddyled sy'n weddill.

Os oes rhywun arall yn delio gyda'ch arian, neu rywun arall yn derbyn eich budd-daliadau, yna byddant hwy'n gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth ariannol ofynnol a thalu cyfraniad defnyddiwr y gwasanaeth. Os na fyddant yn talu cyfraniad defnyddwyr y gwasanaeth, yna caiff gweithredu priodol ei gymryd yn eu herbyn.

**Ble allaf i gael rhagor o wybodaeth?**

Os ydych am ragor o wybodaeth na'r hyn sydd yn y daflen hon gallwch gysylltu â'r Tîm Asesu Ariannol a Chodi Ffioedd am hela a chyngor ar 01685 725000.

Neu gallwch chwilio am gyngor annibynnol yn eich Canolfan ar Bopeth neu sefydliad gwirfoddol arall.

**A allaf i benodi rhywun i weithredu ar fy rhan?**

Gallwch, mae gennych yr hawl i benodi trydydd parti i weithredu ar eich rhan drwy'r holl broses neu ran ohoni. Gall fod yn aelod o'r teulu, yn ffrind neu'n berson annibynnol. Dylai'ch Canolfan ar Bopeth fod yn gallu rhoi cyngor i chi am wasanaethau eiriolaeth yn eich ardal.

**Sut ydw i'n cwyno?**

Os fydd defnyddiwr gwasanaeth yn anfodlon gyda'r asesiad ariannol neu'r broses arolwg, gall ddefnyddio Gweithdrefn Cwyno'r Cyngor.

Ewch i we-dudalen 'Gwasanaethau Cymdeithasol - Gweithdrefn Canmol a Chwyno' am gyngor a gwybodaeth yma www.merthyr.gov.uk

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni:

- Tîm Asesu a Newid 01685 725000
- Dirprwy Swyddog 01685 724500

Derbynfa Gwasanaeth Cwsmeriaid,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,
Canolfan Ddinesig,
Merthyr Tudful.
CF47 8AN
Ffôn: 01685 725000

Gallai'r wybodaeth fod ar gael mewn unrhyw ffurf neu fformat arall ar ofyn.